

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL  
RHONDDA CYNON TAF**

**GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR**

**Mr C. B. Jones**

**Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol**

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**

**Y Pafiliynau**

**Parc Hen Lofa'r Cambrian**

**Cwm Clydach, CF40 2XX**

**Ffôn: (01443) 424081 C Hendy**

Bydd cyfarfod o'r **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** yn cael ei gynnal yn **Swyddfeydd Cyngor y Fwrdeistref Sirol, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, brynhawn Iau, 21 Medi 2017 am 5.00pm.**

ER GWYBODAETH AC FEL RHEOL GYFFREDINOL, BYDD GOFYN I UNRHYW AELODAU O'R CYHOEDD SY'N DYMUNO SIARAD AR UNRHYW EITEM YN YR AGENDA YMA, Y MAE GYDA NHW FUDDIANT YNDDI, GYFLWYNO CAIS FFURFIOL I'R UWCHADRAN MATERION RHEOLI DATBLYGU, TŶ SARDIS, PONTYPRIDD O LEIAF DAU DDIWRNOD GWAITH CYN DYDDIAD Y CYFARFOD. DYLAU UNRHYW UN SY'N DYMUNO ANNERCH Y PWYLLGOR DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG GYSYLLTU Â'R GWASANAETHAU LLYWODRAETHOL AR 01443 424102.

ER GWYBODAETH I'R RHEINY A FYDD YN Y CYFARFOD, MAE'N BOSIBL Y CAIFF MATERION EU TRAFOD MEWN TREFN WAHANOL I'R HYN SYDD WEDI'I NODI YN YR AGENDA ER MWYN GALLUOGI UNIGOLION SYDD AM GYFRANNU YN Y CYFARFOD I WNEUD HYNNY. CAIFF TREFN YR AGENDA EI HADDASU ER MWYN HWYLUSO BUSNES Y PWYLLGOR ORAU.

**AGENDA**

**1. DATGAN BUDDIANT**

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau o'r Pwyllgor yn unol â gofynion Cod Ymddygiad y Cyngor.

**Nodwch:**

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm y mae eu buddiant yn ymwneud ag e a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant personol sy'n rhagfarnu, **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

## **2. DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU**

Nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, pan fyddan nhw'n trafod y materion rheoli datblygu ger eu bron, roi ystyriaeth i'r Cynllun Datblygu a, cyn belled â'u bod yn berthnasol, i geisiadau ac i ystyriaethau eraill ac wrth wneud penderfyniadau, rhaid i Aelodau sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn ffordd nad yw'n anghyson â'r Confensiwn ar Hawliau Dynol a ymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

## **3. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

3. Nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

## **4. COFNODION**

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 17 Awst 2017 yn rhai cywir.

**Tudalennau**

**1 - 4**

## **ADRODDIADAU CYFARWYDDWR GWASANAETH – MATERION CYNLLUNIO**

## **5. CEISIADAU A ARGYMHELLIR AR GYFER EU CYMERADWYO**

1. Cais Rhif: 17/0247 Cynllun arfaethedig – Canolfan arloesedd ddeulawr newydd, gyda newidiadau i'r priffyrdd. Canolfan Arloesedd Newydd, Parc Busnes Cwm Elái, Pont-y-clun, Llantrisant. **5 - 17**
2. Cais Rhif: 17/0350 – Tŷ deulawr ar wahân newydd (tair ystafell wely) gyda garej sengl a mannau parcio. Tir cyferbyn â 16 Clôs yr Helyg, Y Beddau, Pontypridd. **17 - 29**
3. Cais Rhif: 17/0865 – Estyniad un llawr arfaethedig, Loring Bungalow, John's Lane, Hirwaun, Aberdâr. **30 - 36**

## **6. CEISIADAU WEDI'U GOHIRIO**

Cais Rhif: 17/0495 – Adnewyddu tŷ tafarn gan gynwys cadw to, a'i estyn, yr estyniad dau-lawr i'r cefn (ar gyfer estyn y tŷ tafarn ar y llawr gwaelod, cyfanswm o 3). Yn ogystal â chadw'r weithfa beirianyddol yn yr ardal amwynder i'r cefn (ar gyfer gardd, mynedfa, parcio) Tafarn y Royal Oak, Morgan Row, Cwm-bach , Aberdâr. **37 - 56**

## **7. ADRODDIADAU ER GWYBODAETH**

Rhoi gwybod i'r Aelodau am y canlynol, am y cyfnod 21/08/2017 a 08/09/2017. Penderfyniadau Cynllunio a Gorfodi – Apeliadau a Dderbyniwyd. Penderfyniadau Cynllunio a Gorfodi – Apeliadau a Dderbyniwyd. Penderfyniadau Dirprwyedig, Ceisiadau wedi'u Cymeradwyo a'u Gwrthod gyda Rhesymau. Trosolwg o Achosion Gorfodaeth. Gorfodi Penderfyniadau Dirprwyedig. **57 - 72**

## **8. MATERION BRYD**

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn rhai bryd yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

### **Cylchrediad:**

#### **Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu:**

Cadeirydd ac is-gadeirydd y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu:  
(Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol S. Rees a G. Caple)

Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol J. Bonetto, A. Davies-Jones, D. Grehan , L. Hooper, G. Hughes, P. Jarman, D. Williams, J. Williams ac S. Powell

**14 Medi 2017**

